# PROSIECT MAELGI: CYMRU

# CÔD YMDDYGIAD SNORCEL A SGWBA – MAELGWN



ZSL LET'S WORK FOR WILDLIFE


Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales

heritage lottery fund LOTTERY FUNDED

Llywodraeth Cymru Welsh Government

## Os yw'r Maelgi wedi'i gladdu yn y tywod:

– Cadwch bellter o 1.5m o leiaf rhyngoch chi a'r Maelgi






– Peidiwch â'i gyffwrdd

– Peidiwch â symud y tywod neu'r gwaddodion sy'n ei orchuddio

– Peidiwch â rhoi cynnig ar ei fwydo

## Os yw'r Maelgi yn nofio:

– Peidiwch â nofio ar ei ôl






– Peidiwch â mynd ar ffordd y Maelgi wrth iddo nofio

## Pe bai nifer o bobl yn gweld y Maelgi:

– Peidiwch â thyrru o gwmpas y Maelgi




– Cyrhaeddwch a phenliniwch wrth ei gynffon, gan gadw 1.5m o leiaf oddi wrtho a chan sicrhau nad oes neb wrth ymyl ei ben

Photos copyright Michael Sealey

## Sut y caiff Maelgwn eu gwarchod yng Nghymru?

Gwaherddir tarfu ar Faelgwn, eu targedu, eu hanafu neu eu lladd yn fwriadol o fewn 12 milltir fôr o arfordir Cymru a Lloegr (Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981). Os gwelwch Faelgi wrth ddeifio neu snorclo, dilynwch y Cod Ymddygiad Deifio am Faelgwn er mwyn sicrhau y byddwch yn tarfu cyn lleied â phosibl arno.

## Rhoi gwybod eich bod wedi gweld Maelgi

Os byddwch yn ddigon lwcus i weld Maelgi wrth ddeifio neu snorclo, rhowch wybod i: **angelsharknetwork.com/#map** neu e-bostiwch **angelsharks@zsl.org**. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol o ran deall a gwarchod y rhywogaeth yn well.

## Sut i ddod o hyd i Faelgi

Mae Maelgwn yn eu claddu eu hunain mewn tywod neu waddodion o fath arall er mwyn gallu ymosod yn ddirybudd ar eu prae. Golyga hyn fod ganddynt guddliw da a'i bod hi'n anodd eu gweld dan y dŵr. Dyma bethau hollbwysig i chwilio amdanynt:

Sbiraglau – yn aml, y rhain yw'r unig bethau sydd i'w gweld drwy'r tywod pan fo Maelgi wedi'i gladdu'n gyfan gwbl. Mae'r sbiraglau bach siâp cilgant yma'n pwmpio dŵr dros esgyll y Maelgi, gan ei alluogi i aros yn llonydd a disgwyl am ei brae.

Pen ei gynffon – weithiau, mae'n anodd i'r Maelgi orchuddio pen ei gynffon a'i esgyll dorsal gyda gwaddodion, felly o dro i dro mae'r rhain i'w gweld.

Cofiwch chwilio am lecynnau o dywod neu silt wrth riffiau creigiog – mae Maelgwn yn aros yn llonydd er mwyn gallu ymosod ar eu prae, felly efallai eu bod yn cuddio'n agos at y fan lle y mae eu hoff brae (pysgod, ystifflogod, môr lewys) yn ymgynnull.

Amlinelliad Maelgi – weithiau, gallwch weld amlinelliad gwan o amgylch y Maelgi os yw'r gwaddodion wedi cael eu symud oddi ar ei gorff gan y cerrynt.